**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Elin Jones AC, Llywydd

**National Assembly for Wales**
Elin Jones AM, Presiding Officer

At: Arglwyddi Cymreig

20 Hydref 2016

Annwyl Gyfaill

**Mesur Cymru 2016 - gwelliannau arfaethedig**

Yn dilyn dadl ail ddarlleniad Mesur Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi yr wythnos diwethaf, hoffwn dynnu eich sylw at fy argymhellion o ran y gwelliannau rwyf wedi'u cyhoeddi heddiw.  Rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried cyflwyno'r rhain yng nghyfnod y Pwyllgor dros yr wythnosau nesaf.

Fel yr amlinellais yn fy llythyr dyddiedig 5 Hydref, er fy mod yn croesawu'r cynnydd a wnaed ar y Mesur hyd yn hyn, mae rhai materion y mae angen eu datrys o hyd.  Mae'r gwelliannau rwyf wedi'u cyhoeddi yn canolbwyntio ar sicrhau bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn glir, yn ymarferol ac nad yw'n gam yn ôl o ran y setliad presennol.

Yn benodol, mae'r gwelliannau'n mynd i'r afael â mynegiad statudol y confensiwn sy'n gofyn am gydsyniad y Cynulliad; yn adfer gallu'r Cynulliad i ddileu neu addasu swyddogaeth un o Weinidogion y DU, lle mae gwneud hynny yn atodol neu'n ganlyniadol (yn unol â phenderfyniad y Goruchaf Lys ynghylch Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012); dileu'r gofynion cydsyniad newydd a osodir gan y Mesur lle mae'r Cynulliad yn dymuno effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus sydd heb eu datganoli; a chaniatáu i'r Cynulliad ychwanegu at y rhestr o 'bersonau perthnasol' sy'n derbyn cyllid yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Rwy'n falch o weld bod yr adroddiad rhagorol gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad, a gyhoeddwyd ar 6 Hydref, hefyd yn mynegi'r farn bod yn rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.  Mae ei argymhellion arwyddocaol yn cynnwys cefnogi gwelliannau penodol yr wyf wedi'u cyhoeddi'n flaenorol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

Mae'r dogfennau atodedig yn cynnwys nodiadau briffio a nodiadau esboniadol ynghylch y newidiadau rwy'n eu cynnig, ynghyd â'r gwelliannau drafft eu hunain.

Rwy'n gobeithio y bydd yr awgrymiadau hyn yn cyfrannu at y ddadl bwysig ynghylch setliad cyfansoddiadol Cymru yn y dyfodol.  Os hoffech drafod neu gael unrhyw fanylion pellach, mae croeso i chi gysylltu â'm swyddfa.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Materion y mae angen rhoi sylw iddynt**

Cydsyniad y Cynulliad: Y confensiwn ynglŷn â'r Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig – cymal 2

Dyma egwyddor gyfansoddiadol bwysig: dylai'r Cynulliad gydsynio i unrhyw newid yn ei bwerau.

Ni fydd Cymal 2 fel y'i drafftiwyd yn sicrhau sail statudol gadarn ar gyfer y confensiwn cydsyniad deddfwriaethol. Mae Cymal 2 yn cynnwys darpariaeth na fydd Senedd y DU "fel arfer" yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad y Cynulliad. Mae'r defnydd a wneir o'r gair "normally" yn anfoddhaol gan fod modd ei ddehongli'n eang. Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y dylai Senedd y DU ddeddfu ar ran y Cynulliad heb ei gydsyniad, a dylid pennu'r amgylchiadau hynny.

Ni ddylai'r trefniadau cydsyniad deddfwriaethol statudol rhwng y Cynulliad a'r Senedd fod yn gulach na chwmpas y confensiwn rhynglywodraethol sydd ar waith ar hyn o bryd.

Yn yr un modd, dylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad cyn datganoli'r pŵer i amrywio cyfradd y dreth incwm.

Dylid bod angen cydsyniad pan fydd materion:

(a) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(b) yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(c) yn addasu swyddogaethau'r Cynulliad; a

(d) yn addasu swyddogaethau aelodau o Lywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru yn bennaf) pan fo swyddogaethau o'r fath o fewn meysydd datganoledig.

Hoffwn gael mwy o sicrwydd ynghylch pryd y mae angen cydsyniad y Cynulliad, gan gynnwys ymrwymiad y bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion anstatudol am gydsyniad fel y disgrifir yn nodiadau cyfarwyddyd Llywodraeth y DU ar ddatganoli.

Cydsyniad Gweinidogion y Goron – Atodlen 2 paragraffau 8 i 11

Mae Atodlen 2 o Fil Cymru yn cynnig Atodlen 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru sy'n gosod cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn rhan o hyn mae meysydd lle y mae angen cydsyniad Llywodraeth y DU – neu Weinidogion y Goron – cyn y caiff y Cynulliad effeithio ar swyddogaethau "awdurdodau a gedwir yn ôl", hynny yw, Gweinidogion y DU, adrannau Llywodraeth y DU ac awdurdodau cyhoeddus eraill (ac eithrio Awdurdodau Cyhoeddus Cymru).

Bu gwelliant sylweddol ers i'r Mesur drafft gael ei gyhoeddi y llynedd ac mae llawer o'r gofynion am gydsyniad o dan y setliad presennol wedi'u dileu. Fodd bynnag, ceir rhai meysydd lle mae'r newidiadau a gynigir yn y Mesur yn gam yn ôl o gymharu â chymhwysedd presennol y Cynulliad, ac rwyf o'r farn y dylid ystyried y rhain eto.

Byddai'r Mesur yn dileu gallu'r Cynulliad i ddileu neu addasu swyddogaeth un o Weinidogion y DU, lle byddai gwneud hynny yn atodol neu'n ganlyniadol. Rwy'n pryderu'n fawr y byddai effaith hyn yn gam yn ôl o gymharu â chymhwysedd presennol y Cynulliad ac y byddai, i bob pwrpas, yn gwrthdroi penderfyniad y Goruchaf Lys yn yr achos a oedd yn ymwneud â Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 lle nad oedd angen cydsyniad un o Weinidogion y DU os oedd dileu pwerau yn ganlyniad i brif ddiben y Mesur yn unig.

Hefyd, byddai'r Mesur yn cael gwared ar allu'r Cynulliad i ddileu neu addasu swyddogaethau penodedig un o Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig sy'n arferadwy ar ôl mis Mai 2011 – yn benodol swyddogaethau Gweinidogion y DU o ran y Gymraeg. Un enghraifft o effaith y cam hwn yn ôl yw y byddai llawer o elfennau o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, o dan y Mesur, yn gorfod cael cydsyniad Llywodraeth y DU cyn y gellid eu pasio gan y Cynulliad.

Hefyd, byddai'r Mesur yn cyflwyno cyfyngiad newydd, a fyddai'n atal y Cynulliad rhag effeithio mewn unrhyw ffordd ar swyddogaethau awdurdodau eraill a gedwir yn ôl (ac eithrio Awdurdodau Cyhoeddus Cymru, ee y DVLA, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y BBC, yr heddlu). Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiad o'r fath, ac rwy'n pryderu y gallai'r Mesur, fel y'i drafftiwyd, rwystro'r Cynulliad rhag ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau a gedwir yn ôl gydymffurfio â'r gyfraith gyffredinol sy'n gymwys yng Nghymru. Er enghraifft, ar hyn o bryd caiff y Cynulliad osod dyletswydd y dylai pob gweithle yng Nghymru arddangos arwyddion "dim e-sigarénnau", a byddai'n rhaid i awdurdod a gadwyd yn ôl, fel y DVLA sydd wedi'i leoli yn Abertawe, gydymffurfio â'r ddyletswydd honno. O dan y setliad newydd arfaethedig byddai angen cydsyniad Llywodraeth y DU.

Darpariaethau Ariannol – Diwygio Atodlen 2 mewn perthynas â Chymal 13:

Mae paragraff 7 o Atodlen 7B yn pennu'r adrannau hynny o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y bydd gan y Cynulliad gymhwysedd i'w haddasu. Mae paragraff 7(2)(d) yn cyfeirio'n benodol at yr adrannau hynny o Ran 5 o Ddeddf 2006 y mae modd eu haddasu heb gyfyngiad.

Fel y mae ar hyn o bryd, nid yw hyn yn cynnwys adrannau 120(1) nac 124(3) o Ddeddf 2006, sy'n darparu ar gyfer 'personau perthnasol' – a elwir hefyd yn 'gyrff a ariennir yn uniongyrchol' ('direct funded bodies') fel Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – sy'n cael cyllid yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Bwriad hyn yw galluogi'r Cynulliad i alluogi corff sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru i fod yn annibynnol yn ariannol, lle tybir bod hynny'n briodol. Byddai angen Deddf Cynulliad i ddefnyddio cymhwysedd o'r fath i ddiwygio'r cymalau hyn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i ychwanegu at y 'personau perthnasol', ac nid penderfyniad i'w wneud ar chwarae bach mo hynny. Byddai'n destun proses drylwyr o ymgynghori a chraffu.